# Hydref 21ain, 2018

**Oedfa Diolchgarwch yw cwrdd bore 'ma. I staff yr Ysgol Sul a'r Twmiaid a'u holl aelodau, Diolch.**

**Y Suliau Nesaf**

**Hydref 28ain – Gethin Rhys gyda Helen Prosser**

**Tachwedd 4ydd – yng ngofal Emlyn Davies, gydag Ann yn llywyddu**

**Tachwedd 11eg – Sul Heddwch. Canrif yn union ers diwedd y Rhyfel Mawr cynhaliwn fore arbennig i ymroi o'r newydd i yng nghwmni Aled Gwyn. Mynnwch air gyda Geraint Rees oes cerdd, stori, darlun, hanesyn ayyb gyda chi? Diolch.**

**Tachwedd 18eg – Sul Teuluol gydag Iwan Rowlands**

**Merched y Tabernacl**
**Tachwedd 9fed**
Mae'r bws i Lambed yn llawn!

**Cyfarfod Blynyddol 2018**

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn yr oedfa fore Sul 25 Tachwedd. Fe gofiwch mai tair blynedd yw tymor pob aelod o'r Bwrdd a chan fod tymor pedwar o'r Cyfarwyddwyr yn dod i ben eleni fe ddaeth yr amser unwaith eto i enwebu aelodau eraill i'r Bwrdd yn eu lle. Mae ffurflenni enwebu pwrpasol ar gael yng nghyntedd y Capel neu gan Gwilym Huws yr Ysgrifennydd, a dylid eu dychwelyd wedi eu harwyddo i Gwilym erbyn dydd Llun 5 Tachwedd fan bellaf.

**Cyfarfod Blynyddol Tafod Elái**
**7yh Nos Lun 22 Hydref**
**Yng Nghanolfan Garth Olwg**
Cyfle i werthfawrogi gwaith ein gohebwyr a'n dosbarthwyr ac i edrych ar ddatblygu ein gweithgarwch yn y dyfodol,
**Dewch i gefnogi eich papur bro lleol.**

**TRYCHINEB INDONESIA**

Mae'r dinistr i fywydau ac eiddo yn dilyn y ddaeargryn a'r tsunami yn Indonesia wedi ein brawychu ni i gyd, ond gan fod digon o gyfle i bawb gyfrannu yn ôl eu dymuniad drwy apêl DEC ar y cyfryngau torfol, ni fydd casgliad arbennig yn y capel

**CINIO CYNHAEAF**

Mae nifer dda yn dod i ginio yn syth wedi'r oedfa. Y bwriad yw ein bod yn mynd lawr i Neuadd y Pentref ar ddiwedd yr oedfa – mae cawl a phwdinau yn ein haros. Bydd y cyfan drosodd cyn 1 er mwyn i grŵp newydd defnyddio'r Neuadd.

**CASGLU DILLAD A NWYDDAU**

Bydd casgliadau dillad, nwyddau a thrugareddau ar gyfer **ADREF**, a chasgliadau dillad isa a dillad tywydd gwlyb i blant yn eu harddegau ar gyfer **NANTGWYN** yn parhau, wrth i'r angen gynyddu dros fisoedd y gaeaf.





Fe fyddwn ni hefyd yn eich gwahodd i adael dillad ac offer - mawr a bach - ar gyfer babanod ifanc yn y capel, er mwyn cefnogi **CWTCH**, elusen sy'n cydweithio gydag ymwelwyr iechyd a gweithwyr cymdeithasol i helpu mamau anghenus, ac wedi ei lleoli mewn warws yn Ffynnon Taf. Gofynnwn i chi labelu'r bagiau fel ein bod yn eu danfon i'r elusen benodol.Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth bob amser.

**ELUSENNAU 2019**

Mae hi'n amser cyflwyno rhestr o elusennau'r amlenni brown i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn y Cyfarfod Cyffredinol ym mis Tachwedd.
Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, cysylltwch â
John Llew johnllewt@hotmail.com
Ann ann.pentyrch@btinternet.com
CYN HYDREF 28ain Diolch yn fawr

**Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar ein tudalen Facebook a www.tabernacl.org**

## DEFNYDD Y GANOLFAN A'R CAPEL


Mae croeso i aelodau'r capel ag eraill wneud defnydd o'n hadeiladau, ond yng ngwyneb y ffaith bod llawer o ddefnydd ar y safle y dyddiau hyn mae wir angen bwcio o flaen llaw. Yn ystod y pythefnos hwn bydd y grwpiau canlynol wedi gwneud defnydd o'r safle:

Clwb Crefft Nos Lun
Côr Cymunedol O25
Bore coffi Mercher
Gwersi Cymraeg i oedolion
Merched y Tabernacl
Côr yr Einion
Parti'r Efail
Cylch Cadwgan
Ysgol Gerdd Arius
Ysgol Sul
Teulu Twm
2 gynulleidfa
Merched y Wawr
U3A
Pwyllgorau'r Capel
Pobol y Cwm


Bwcio: carolinerees2@hotmail.com
07539452130

## CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu




## APÊL MADAGASCAR 2018




Mae apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg hyd at Fehefin 2019 yn anelu at godi £200,000 i helpu Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd. Bydd yr arian yn cefnogi prosiectau i d'r anghenus. **Os tecstiwch Geraint ar 07816341527 gyda'ch henwau, bydd £5 y pen yn mynd i Madagascar am bob un sy'n bwcio drwy'r capel am Noson Lawen nos Fercher (isod).**

